## YN EISIAU

*Evans, D. Ellis.* **Gaulish Personal Names: a study of some continental Celtic formations.** *Oxford: Clarendon Press, 1967.*
*Evans, D. Silvan.* **A dictionary of the Welsh Language . . . geiriadur Cymraeg. Parts 1–5, A–ENNYD.** *Carmarthen: W. Spurrell and Son, 1887–1906.*
*Griffiths, E.* **Welsh and English Dictionary: geiriadur Cymraeg a Saesoneg.** *Abertawy: E. Griffiths, 1847.;*
*Holder, Alfred.* **Alt-celtischer Sprachschatz.** *Leipzig: Teubner, 1896–1913. 3 BDe.; ail-gyhoeddwyd — Graz: Akademische Druckund Verlansanstalt, 1961–2.*
*Jones, Evans (Ieuan Dyfi).* **Darlundraeth o Fachynlleth a'i Hamgylchoedd.** *Machynlleth: Adam Evans, 1855.*
*Lejeune, Michel.* **Celtiberica.** *Salamanca: Universidad de Salamanca, 1955.*
*Owen, George.* **The Description of Penbrokeshire by George Owen of Henllys, Lord of Kemes.** *Ed. Henry Owen; additional notes by Egerton Phillimore; Cymmrodorion Record Series, No. 1; London: Bedford Press, I (1892), II (1892), III (1906), IV (1936).*
*Williams, Edward (Bardd Glas Morganwg).* **Cyneirlyfr: neu eiriadur Cymraeg . . .** *Aberhonddu: William Williams, 1827. 2 gyfrol.*
*Williams, R. T. (Trebor Môn):*
**Cybi Sant a'i Eglwysi.**
**Derwyddiaeth Ynys Môn.**
**Diwrnod yn Nolgellau.**
**Lleoedd o Ddyddordeb yn Nolgellau a'r Cwmpasoed.**
**Enwau Lleoedd yn Môn a'u Tarddiad.**
**Newmarket: Ei Hynafiaethau, Cofiannau, a'i Hanes Presenol.**
**Unrhyw lyfr neu bamffled anghyffredin gyda theitl fel 'Hanes Plwyf . . .' neu 'Hynafiaethau . . .'**

*Yr Athro Chris Grooms, Collin County Community College District, Spring Creek Campus, 2800 E. Spring Creek Parkway, Plano, Texas, USA 75074.*

**Llythyrau'r Morrisiaid (1728–65),** *mewn dwy gyfrol (gol. J. H. Davies; Rhydychen, 1906–09).*
*Ffôn Bangor: (0248) 362752.*

*Copi glân o* **Y Glöwr a Cherddi Eraill,** *Gwilym R. Tilsley. Llandybie: Llyfrau'r Dryw, 1958.*
*Richard H. Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed SY24 5BG. Ffôn: Aberystwyth 828102.*

**Methodistiaeth Fy Mro, sef ymchwil i ddechreuad Methodistiaeth yn Nwyrain Myrddin,** *Gomer M. Roberts. Treforus: Yr Awdur, 1938.*
*Islwyn Williams, Garthowen, Gorslas, Llanelli, Dyfed.*

**Unrhyw lyfr gan John Williams Hughes (1906–1977),** *y newyddiadurwr o'r Marian Glas, Ynys Môn.*
*J. Wynne Lewis, Cae'r Wylan, Ystad Nant Bychan, Moelfre, Ynys Môn, Gwynedd LL72 8HE. Ffôn: Moelfre 216.*

**Cymraeg i'r werin / Welsh simplified: a practical modern dictionary of words and phrases for teachers and students.** *Llundain: Gwasg Foyle, 1932.*
*Eleri Carrog, Tŷ Glyndŵr, 1 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd. Ffôn: (0286) 5644/3795.*

**Hanes hen furddynod plwyf Llansannan, gan Hedd Molwynog (Robert Wynne Jones, Llansannan) o dan olygiad y Parch. R. Ellis.** *Conwy: Argraffwyd gan R. E. Jones a'i Frodyr, 1910.*
**Plwyf Llansannan, ei chwedloniaeth, ei gymeriadau hynod . . . gan 'Lloffwr Llên' (Mr R. Wynne Jones) o dan olygiad y Parch. R. Ellis (R. ap Cynddelw).** *Conwy: Argraffwyd gan R. E. Jones a'i Frodyr, 1911.*
*Berwyn Kerfoot, Henllys, Towyn, Abergele, Clwyd. Ffôn: Y Rhyl 351208.*

*(O Dudalen 1)*

OHERWYDD tebygrwydd y delyneg gynnar i'r gyfres a geir yn *Telynegion Maes a Môr*, ymddengys mai Mary Newell yw gwrthrych serch y bardd ynddynt ond ni ellir bod yn sicr am hyn.

Y ffeithiau diymwad yw fod y garwriaeth wedi terfynu yn fuan ar ôl cyhoeddi'r gyfrol oherwydd i Mary Newell briodi William Roberts yn 1907 ac ym mis Tachwedd o'r un flwyddyn y priododd Eifion Wyn gydag Annie Jones o blwyf Abererch.

Yn ei gofiant i'w dad a gyhoeddwyd yn 1980 noda Peredur Wyn Williams mai carwriaeth o hirbell yn anochel a fu'r berthynas rhwng Eifion Wyn ac Annie Jones oherwydd gweini ym Manceinion y bu hi am bron i ugain mlynedd cyn priodi.

Nid yw'r mab yn taflu unrhyw oleuni ar fodolaeth y Men arall a'r rhyfeddod yw fod Eifion Wyn wedi trosglwyddo'r enw i Annie Jones oherwydd felly y cyfeiria ati yn ei ohebiaeth a ddyfynnir yn y bywgraffiad. Diddorol yw sylw Carneddog yn ei deyrnged goffa iddo mai 'Annie' ac nid 'Men' oedd hoff enw Eifion Wyn ar ei wraig.

Yr unig reswm y gallaf ei gynnig am ei ddefnydd o'r un enw am ei wraig yw mai ceisio cadw wyneb ydoedd. I'r byd oddi allan ymddangosai fod Eifion Wyn wedi priodi gyda'r un Fen ac nid oedd y garwriaeth gyntaf â Mary Newell, serch ei hyd, y math o bwnc y byddai ei drafod yn agored yn gydnaws ag ysbryd yr oes Edwardaidd ym Mhorthmadog.

Wrth i iechyd Eifion Wyn ddirywio a nwyd ei ieuenctid galedu yn biwritaniaeth ddigymrodedd, mae'n debyg fod ei garwriaeth â Mary Newell yn achos cryn embaras iddo, ac yn sicr yn fater na ddymunai ei atgyfodi mewn unrhyw ffordd.

* * * *

YN ÔL tystiolaeth Peredur Wyn nid oedd ei fam yn llengar a'i phrif gyfraniad i ddedwyddwch eu bywyd priodasol fu gofal diflino am ei gŵr a sicrhau llonyddwch perffaith iddo lenydda.


O'r hyn a ganfum am Mary Newell mae'n amheus gennyf a fyddai'r fath gytgord wedi bodoli pe bai hi wedi ei briodi. Meddai ar gymeriad annibynnol, llawn penderfyniad a chwaraeodd ran flaenllaw a chyhoeddus mewn cylchoedd crefyddol a gwleidyddol. Wedi dychwelyd i Gymru cyfrannai o'r llwyfan yng nghyfarfodydd etholiadol Ellis Davies a Goronwy Owen, yr aelodau seneddol Rhyddfrydol.

Yn naturiol, Rhyddfrydwr oedd Eifion Wyn yntau ond anodd dychmygu y byddai'r fath ymarweddiad brwdfrydig gan wraig iddo wrth fodd cymeriad mor encilgar.

Ni fwriadwyd i delynegion fod yn ffynonellau hanes a pherygl amlwg yw darllen gormod i mewn iddynt. Serch hynny mae awgrym o berthynas dymhestlog yn y gerdd gyntaf sydd ar gael a gyfansoddwyd gan y bardd i'w fun yn *Ieuenctid y Dydd*. Ynddi tystia fel y bu i Men wrthgilio am flwyddyn ac yntau yn ei dro am flwyddyn bellach cyn ail-gymodi'n ddedwydd.

Awgryma'r delyneg *Dan dy Lewyrch* fod toriad arall yn y berthynas yn 1894. Denygs tystiolaeth bendant fod y garwriaeth yn fyw yn 1903 a phur annhebyg yw y byddai Eifion Wyn wedi cyhoeddi telynegion Men yn 1906 pe bai'r garwriaeth trosodd.

Addas iawn fodd bynnag oedd iddo gynnwys y delyneg sydd yn delweddu marwolaeth symbolaidd Mary Elizabeth Newell oherwydd ymhen byr amser daeth eu carwriaeth i ben yn derfynol.




## Theatr Cymru
## At y Golygydd

BYDDEM yn gwerthfawrogi'n fawr pe gallem annog eich darllenwyr i gyflwyno'u sylwadau ar y theatr Gymraeg. Mae Cyngor y Celfyddydau'n adolygu ei bolisiau ar gefnogi'r theatr Gymraeg er mwyn llunio strategaeth ar gyfer 1992–1995. Hoffem gael sylwadau nid yn unig ar gyflwr presennol y theatr Gymraeg ond hefyd ar anghenion cynulleidfaoedd at y dyfodol a sut y gallem ddatblygu elfennau gorau'r gwaith presennol.

Ein nod yw llunio dogfen awdurdodol a fydd ar gael i'r cyhoedd yn ystod hydref 1991. Ein gobaith yw y bydd yr arolwg yn gosod sylfaen ar gyfer syniadaeth glir at y dyfodol i bawb sy'n ymwneud â'r maes — ac hefyd i roi dadleuon i gynyddu adnoddau pan a ble bo angen. O safbwynt Pwyllgor Drama a Phanel Theatr Gymraeg Cyngor y Celfyddydau, datblygu'r theatr Gymraeg yw'r prif flaenoriaeth.

Mae 'dogfen ysgogi' ar gael oddi wrth fy swyddfa a byddaf wrth fy modd i dderbyn ymholiadau neu fynychu cyfarfodydd ynglŷn â'r mater pwysig hwn.

Hoffwn gael sylwadau eich darllenwyr, a sylwadau eich cyfranwyr eich hun, erbyn 31 Gorffennaf 1991.

*Michael Baker*
*Cyfarwyddwr Drama*
*Cyngor y Celfyddydau*
*Stryd yr Amgueddfa*
*Caerdydd CF1 3NX*